# Catalog Adnoddau 2010




Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

# Catalog Adnoddau

## Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y Catalog Adnoddau hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru i gefnogi unrhyw un sy'n gweithio gyda bwyd, neu sydd â diddordeb mewn bwyd, boed hynny o safbwynt hyrwyddo deiet iach a chytbwys, sefydlu busnes bwyd neu sicrhau bod bwyd wedi'i goginio'n iawn ac yn ddiogel i'w fwyta.

Gellir archebu'r holl adnoddau yn rhad ac am ddim, ond mae'n bosibl y bydd cyfyngiad ar nifer y copïau sydd ar gael i chi, gan ddibynnu ar faint ohonynt sydd ar gael (ni cheir archebu mwy na 100 copi o unrhyw gyhoeddiad oddi wrth Gyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd). Rydym yn adolygu ein hadnoddau yn barhaus, felly os nad ydych chi'n gallu dod o hyd i'r hyn yr ydych yn chwilio amdano, mae croeso i chi gysylltu â ni ar y rhif ffôn a nodir ar ddiwedd y catalog hwn.

*Mae'r holl gyhoeddiadau hyn ar gael oddi wrth Gyhoeddiadau'r ASB, oni nodir yn wahanol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gael yn Gymraeg, ac eraill ar gael fel fersiynau dwyieithog. Ewch i* ***food.gov.uk/wales/aboutus_wales/fsawalesw/welsh/*** *i ddysgu mwy. Mae rhai adnoddau hefyd ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd eraill gan gynnwys Bengaleg, Tsieineeg, Gwyddeleg, iaith Groeg, Gwjarati, Hindi, Pwnjabeg, Thai, Tyrceg, ac Wrdw. Ewch i* ***food.gov.uk/aboutus/publications/pubsminority/*** *i gael rhagor o wybodaeth.*




## Gwefannau'r ASB

### www.eatwell.gov.uk

Mae'r wefan gwbl ddwyieithog hon yn arbennig ar gyfer y defnyddiwr ac yn cynnig cyngor ar ddeiet ac iechyd, gan gynnwys cyngor dibynadwy ac ymarferol ar fwyta'n iach, deall labeli bwyd a sut y gall yr hyn yr ydym yn ei fwyta effeithio ar ein hiechyd.

### www.food.gov.uk

Mae'r wefan hon yn cynnig cyfoeth o wybodaeth am yr ASB a'i pholisïau, gan gynnwys y newyddion diweddaraf am fwyd, diogelwch a hylendid bwyd, labelu bwyd, bwydydd GM a bwydydd newydd, BSE, gwyddoniaeth ac ymchwil a materion sy'n ymwneud â gorfodi. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys dolen i safle yr ASB yng Nghymru, ac mae modd lawrlwytho copïau o gyhoeddiadau Cymraeg ar y dudalen - **www.food.gov.uk/wales/aboutus_wales/fsawalesw/welsh/**

### Adnoddau Addysgu Rhyngweithiol i Blant a Phobl Ifanc

Mae'r ASB wedi datblygu nifer o gemau llawn hwyl a gwybodaeth am fwyta'n iach a diogelwch bwyd, sy'n addas ar gyfer plant rhwng 5 ac 14 mlwydd oed. Mae'r ASB hefyd wedi datblygu cwisiau ac offer rhyngweithiol, sy'n ymdrin ag ystod o faterion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, bwyta'n iach a labelu. Ewch i **eatwell.gov.uk/info/games** – a chlicio ar 'Cymraeg' – i weld pa adnoddau sydd ar gael.

# Cynnwys

Er hwylustod, mae ein hadnoddau wedi'u categoreiddio isod. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod nifer o adnoddau yn croesi ffiniau categorïau, ac felly fe'ch cynghorir i edrych ar y blychau testun cysylltiedig.


| Adnoddau Cyffredinol yr Asiantaeth | Tud |
|---|---|
| Amdanom ni - Eich canllaw i'r Asiantaeth Safonau Bwyd | 4 |
| Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer 2010-2015 | 4 |
| Blwyddyn yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2008/09 | 4 |
| Cynllun Iaith Gymraeg 2008-2012 | 4 |

| Adnoddau i Ddefnyddwyr | |
|---|---|
| **Bwyta'n Iach (EatWell)** | |
| Bwyta'n Iach - Cyngor ar fwyta'n iach | 5 |
| Canllaw'r Plât Bwyta'n Iach | 5 |
| Cyngor i gyd-fynd â'r Plât Bwyta'n Iach | 5 |
| Bwyta'n Iach - Meddwl am gael Babi? | 5 |
| Bwyta'n Iach - Bwyta yn ystod Beichiogrwydd | 5 |
| Bwyta'n Iach - Bwyta er mwyn Bwydo ar y Fron | 6 |
| Eich Babi - Bwydo eich Babi yn Ystod y Flwyddyn Gyntaf | 6 |
| Bwyta'n Iach - Bwydo eich Plentyn Bach | 6 |
| Bwyta'n Iach - Bwydo eich Plentyn sy'n Tyfu | 6 |
| Bywyd Da - Cyngor ar Faeth ar gyfer Dynion a Menywod dros 50 oed | 6 |
| Bwyd Iach ar Arian Bach | 7 |
| Rysáit Bywyd | 7 |
| Poster - Beth yw Dogn o Ffrwythau a Llysiau? | 7 |
| Prynu Bwyd pan fo Gennych Alergedd neu Anoddefiad Bwyd | 7 |
| Llyfr Bach am Halen | 7 |
| Braster Dirlawn - Y Gwir Amdani | 8 |
| **Ymgyrchoedd Bwyta'n Iach** | |
| Posteri A3 yr Ymgyrch Halen | 8 |
| Halen - Taflen Gwis | 8 |
| Halen - Cerdyn Rysáit | 8 |
| Poster A3 yr Ymgyrch Braster Dirlawn | 9 |
| Braster Dirlawn - Ryseitiau | 9 |
| Braster Dirlawn - Taflen Gwis | 9 |

| **Labeli Bwyd** | |
|---|---|
| Labeli Bwyd - Dewisiadau mwy Deallus | 9 |
| Defnyddio Goleuadau Traffig i Wneud Dewisiadau Iachach | 10 |

| **Diogelwch Bwyd** | |
|---|---|
| Mae Bygiau'n Hoffi'r Haul! | 10 |
| Mae Germau yn Hoff o Deithio | 10 |
| Taflen Gwylio Germau - Hylendid Da yn y Cartref | 10 |
| Posteri Gwylio Germau | 11 |
| Taflen Listeria | 11 |
| Poster Listeria | 11 |
| Deunyddiau Wythnos Diogelwch Bwyd 2010 | 11 |

## Adnoddau Addysgol

| **Bwyta'n Iach** | |
|---|---|
| What's Cooking? A Guide to Setting Up and Running Community and School Food Clubs ***(Saesneg yn unig)*** | 12 |
| Pecyn ASB Cymru i Athrawon (Cyfnod Allweddol 1 a 2) | 12 |
| Pecyn cymorth 'Dechrau Coginio' | 12 |
| Posteri Comig Bwyta'n Iach (Cyfnod Allweddol 3) | 13 |

| **Diogelwch Bwyd** | |
|---|---|
| Pecyn Gwylio Germau i Ysgolion | 13 |
| Germ-air Gwylio Germau | 13 |
| Germ-wledd Gwylio Germau | 13 |
| Lliwio Llun Gwylio Germau | 13 |

## Busnesau Bwyd

| **Bwyta'n Iach** | |
|---|---|
| Llyfryn Braster Dirlawn a Siwgr wedi'i Ychwanegu | 14 |
| Taflen Labelu Goleuadau Traffig | 14 |
| Healthy Catering ***(Saesneg yn unig)*** | 14 |
| Dine Out, Eat Well ***(Saesneg yn unig)*** | 14 |

| **Gwybodaeth am Alergedd** | |
|---|---|
| E-Ddysgu - Safle Hyfforddi Alergedd Bwyd | 14 |
| Guidance on Allergen Management and Consumer Information ***(Saesneg yn unig)*** | 15 |
| Alergedd - Beth i'w Ystyried wrth Labelu Bwyd | 15 |
| Alergedd bwyd - Beth Sydd Angen i chi ei Wybod | 15 |
| Poster 'Meddyliwch am Alergedd' | 15 |
| The Provision of Allergen Information for Non Prepacked Foods - Voluntary Best Practice Guidance ***(Saesneg yn unig)*** | 16 |

| Diogelwch Bwyd | |
|---|---|
| Rheolau Labelu Pysgod: Canllaw Cyflym | 16 |
| Hylendid Bwyd - Canllaw i Fusnesau | 16 |
| Arolygiadau Cyfraith Bwyd a'ch Busnes | 16 |
| Dechrau Busnes - Eich Camau Cyntaf i Redeg Busnes Arlwyo | 17 |
| Eggs: What Caterers Need to Know ***(Saesneg yn unig)*** | 17 |
| Cod Ymarfer Amaethyddol Da er Lleihau Mycotocsinau yng Ngrawn y DU | 17 |
| Posteri 'Mae hylendid gwael yn gadael blas cas' | 17 |
| Taflen 'Bydd hylendid da yn hwb i'th fusnes' | 18 |
| Pecyn Bwyd mwy Diogel Busnes Gwell (SFBB) i Arlwywyr | 18 |
| SFBB for Chinese Cuisine ***(Tsieinëeg a Saesneg yn unig)*** | 18 |
| SFBB for Indian, Pakistani, Bangladeshi and Sri Lankan Cuisines ***(Saesneg yn unig)*** | 18 |
| Pecyn Bwyd mwy Diogel Busnes Gwell (SFBB) i Fanwerthwyr | 19 |
| Atodiad Bwyd mwy Diogel Busnes Gwell (SFBB) ar gyfer Gartrefi Gofal | 19 |
| Pecyn Bwyd mwy Diogel Busnes Gwell (SFBB) i Warchodwyr Plant | 19 |
| Taflen Ffeithiau 'Food and Pesticides' ***(Saesneg yn unig)*** | 19 |
| Bwydydd wedi'u hoeri a becynnwyd dan wactod | 20 |
| Listeria - cadw bwyd yn ddiogel | 20 |

| Bwyd wedi'i Fewnforio | |
|---|---|
| Working Together on Imported Food ***(Saesneg yn unig)*** | 20 |
| Think Before You Import Food Poster ***(Saesneg yn unig)*** | 20 |

## Cynhyrchwyr Sylfaenol

| | |
|---|---|
| Atal Gwenwyn Plwm ar y Fferm | 21 |
| Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) ar gyfer Gwartheg, Defaid a Geifr | 21 |
| Canllawiau pellach ar Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) i Geidwaid Gwartheg, Defaid a Geifr yng Nghymru | 21 |
| Nodiadau Fferm | 21 |
| Gwartheg Cig Eidion Glân i'w Lladd - Canllaw i Gynhyrchwyr | 21 |
| Diogelwch Cig Coch a Da Byw Glân | 22 |
| Food and Feed Hygiene for Farmers and Growers Guide ***(Saesneg yn unig)*** | 22 |
| Taflen Ffermydd Glanach, Adar Gwell | 22 |
| Bioddiogelwch ar gyfer Brwyliaid a Gedwir Dan Do | 22 |
| Poster Ffermydd Glanach, Adar Gwell | 22 |
| Posteri: Clean Cattle and Meat Safety ***(Saesneg yn unig)*** | 23 |
| Posteri Defaid Glân a Diogelwch Cig | 23 |
| Defaid Glân i'w Lladd - Canllaw i Gynhyrchwyr | 23 |
| O Ddifrif am Salmonela - Canllaw i Gynhyrchwyr Moch | 23 |
| BSE a Chig Eidion - Arweiniad Byr i Fesurau Rheoli Newydd | 24 |
| Egluro Mesurau Rheoli BSE a Chig Eidion Newydd | 24 |

**Manylion Cyswllt** 24

# Adnoddau Cyffredinol yr Asiantaeth

## Amdanom ni - Eich canllaw i'r Asiantaeth Safonau Bwyd
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Mae'r daflen hon yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gan gynnwys rôl, amcanion strategol a gwerthoedd craidd yr Asiantaeth hyd at 2010.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/aboutus0907.pdf




## Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer 2010-2015
**FSA/1478/1209**

Mae'r strategaeth newydd yn amlinellu ein cyfeiriad strategol dros y pum mlynedd nesaf ac yn diffinio bwriad yr Asiantaeth i sicrhau bwyd diogel a bwyta'n iach i bawb. Mae'n archwilio'r amcan a'r blaenoriaethau strategol, ac yn disgrifio'r canlyniadau a'r camau gweithredu y bydd yr Asiantaeth ac eraill yn eu cymryd i ddiogelu bwyd y DU ac i annog pobl i newid eu deiet mewn ffordd bositif.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/cynllstrat2015




## Blwyddyn yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2008/09
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ychydig o'r gwaith a gynhaliodd yr Asiantaeth y llynedd ac yn disgrifio'n fanwl ei hymrwymiadau ar gyfer y dyfodol o ran diogelwch bwyd ac iechyd deietegol.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/Blwyddynasb0809.pdf




## Cynllun Iaith Gymraeg 2008-2012
**FSA/1274/0708**

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y bydd yr Asiantaeth yn eu cymryd wrth gynnal ei busnes er mwyn sicrhau ei bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/welshlanguagewelsh0708.pdf





*Mae'r holl adnoddau ar gael oddi wrth Gyhoeddiadau'r ASB oni nodir yn wahanol*

# Adnoddau i Ddefnyddwyr

## Bwyta'n Iach (EatWell)




### Bwyta'n Iach - Cyngor ar fwyta'n iach
**FSA/1172/1209**

Mae'r llyfryn A5 hwn yn cynnwys 8 awgrym ar fwyta'n iach er mwyn eich helpu i wneud dewisiadau iachach, megis bwyta'r swm cywir o fwyd o gymharu â faint o ymarfer corff yr ydych chi'n ei wneud a bwyta amrywiaeth o fwydydd er mwyn sicrhau eich bod yn cael deiet cytbwys.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/8awgrym.pdf



### Canllaw'r Plât Bwyta'n Iach
**FSA/1200/0907**

Mae'r canllaw A5 hwn yn dangos y 5 grŵp bwyd a'r gyfran ohonynt sydd eu hangen er mwyn bwyta deiet cytbwys ac iach. Mae'r canllaw wedi'i dargedu at unrhyw un sydd am addysgu neu ddysgu am gynnwys deiet cytbwys ac iach.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/eatwellplate0907welsh.pdf

Hefyd ar gael fel Poster A3 y Plât Bwyta'n Iach: FSA/1199/0907




### Cyngor i gyd-fynd â'r Plât Bwyta'n Iach
**FSA/1558/0310**

Taflen i ddefnyddwyr yw hon, sy'n rhoi cyngor ar fwyta deiet sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y Plât Bwyta'n Iach. Mae'n egluro'r gwahanol fathau a chyfrannau o fwyd sydd eu hangen i gynnal deiet iach a chytbwys.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/taflenyplat.pdf




### Bwyta'n Iach - Meddwl am Gael Babi?
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Mae'r llyfryn A5 hwn wedi'i ddatblygu'n arbennig ar gyfer menywod sy'n meddwl am gael babi, ac mae'n cynnig cyngor i'w helpu i wneud dewisiadau iachach a rhoi'r dechrau gorau i'w babi.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/thinkingbabywelsh1108.pdf




### Bwyta'n Iach - Bwyta yn ystod Beichiogrwydd
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Mae'r llyfryn A5 hwn wedi'i ddatblygu'n arbennig ar gyfer menywod beichiog ac mae'n cynnig cyngor i'w helpu i ddewis deiet sy'n darparu digon o egni a maethynnau i alluogi eu babi i dyfu a datblygu ac i helpu eu cyrff i ymdopi â'r newidiadau sy'n digwydd.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/bwytabeichiog0110.pdf

## Bwyta'n Iach (EatWell)

### Bwyta'n Iach - Bwyta er mwyn Bwydo ar y Fron
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Mae'r llyfryn A5 hwn wedi'i ddatblygu'n arbennig ar gyfer mamau sy'n bwydo ar y fron neu'r rheiny sy'n bwriadu bwydo ar y fron, ac mae'n cynnwys cyngor ar fwyta deiet iach a chytbwys. Gall fod yn anodd dod o hyd i amser i fwyta'n iawn pan fyddwch yn gofalu am eich babi; mae'r llyfryn hwn yn rhoi cyngor defnyddiol.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/bwydoaryfron0110.pdf




### Eich Babi - Bwydo eich Babi yn Ystod y Flwyddyn Gyntaf
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig cyngor ymarferol ar fwydo eich babi, fel pa bryd i ddechrau rhoi bwyd solet i'ch babi, pa fwydydd sy'n addas a beth sydd angen i chi ei osgoi. Mae'n eich cynghori o'r misoedd cyntaf tan y bydd eich plentyn yn flwydd oed.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/eichbabi.pdf




### Bwyta'n Iach - Bwydo eich Plentyn Bach
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Datblygwyd y llyfryn A5 hwn i helpu rhieni a gofalwyr i wneud dewisiadau bwyd iachach ar gyfer eu plant bach.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/plentynbach0209.pdf




### Bwyta'n Iach - Bwydo eich Plentyn sy'n Tyfu
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Datblygwyd y llyfryn A5 hwn ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae'n cynnwys cyngor i'w helpu i wneud dewisiadau iachach ar gyfer eu plant sy'n tyfu.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/plentyntyfu1009.pdf




### Bywyd Da
**FSA/1208/1007**

Mae'r llyfryn hwn, sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer pobl rhwng 50 a 65 oed, yn darparu cyngor ar sut i fwyta deiet iach a chytbwys a chynnal pwysau iach.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/bywydda0609.pdf



## Bwyta'n Iach (EatWell)

### Bwyd Iach ar Arian Bach
**Ar gael gan yr ASB yng Nghymru**




Mae'r canllaw 18 tudalen hwn wedi'i ddatblygu'n arbennig ar gyfer disgyblion sy'n gadael yr ysgol a myfyrwyr ac mae'n llawn cyngor call, straeon go iawn a ryseitiau syml a blasus i helpu pobl ifanc i ddewis, prynu a choginio bwyd iach, heb fynd i gostau mawr!

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/hnfldcym1008.pdf

### Rysáit Bywyd
**Ar gael gan yr ASB yng Nghymru**




Llyfryn sy'n llawn dop o ryseitiau maethlon a hawdd eu paratoi a llond gwlad o awgrymiadau defnyddiol. Mae Rysáit Bywyd yn cynnig cyngor am faeth i bobl dros eu hanner cant i'w helpu i fwyta deiet iach a chytbwys.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/rysaitbywydc0608.pdf

### Poster - Beth yw Dogn o Ffrwythau a Llysiau?
**Ar gael gan yr ASB yng Nghymru**



Mae'r poster A3 hwn yn dangos beth sy'n cyfrif fel dogn o ffrwythau neu lysiau.

### Prynu Bwyd pan fo Gennych Alergedd neu Anoddefiad Bwyd
**FSA/1452/1109**



Mae'r daflen hon ar gyfer pobl sydd newydd ganfod fod ganddynt alergedd neu anoddefiad bwyd, neu glefyd seliag; mae'n esbonio sut i ddewis bwydydd addas mewn siopau a bwytai.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/prynubwydalergedd.pdf

### Llyfr Bach am Halen
**FSA/1443/0909**




Mae'r llyfryn bach hwn yn cynnwys cyngor i ddefnyddwyr ar sut i leihau'r halen yn eu deiet, gan nodi uchafswm yr halen y dylai pobl ei fwyta pob dydd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/llyfrbach.pdf

# Adnoddau i Ddefnyddwyr

## Bwyta'n Iach (EatWell)

### Braster Dirlawn - Y Gwir Amdani
**FSA/1306/0109**




Mae'r llyfryn bach hwn yn cynnwys cyngor syml i ddefnyddwyr ar sut i leihau'r braster dirlawn yn eu deiet.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/satfatbookletwelsh0209.pdf

## Adnoddau'r Ymgyrchoedd Bwyta'n Iach

### Poster A3 yr Ymgyrch Halen
**FSA/1451/0909**



Fel rhan o ymgyrch yr Asiantaeth yn 2009 i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am yr halen yn eu deiet, mae'r poster hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r halen sydd yn ein deiet yn cuddio mewn bwydydd bob dydd, fel bara.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/a3bara.pdf

Hefyd ar gael fel poster A4 (cod FSA/1449/0909) drwy ddilyn:
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/a4bara.pdf

### Halen - Taflen Gwis
**FSA/1445/0909**




Taflen sy'n herio defnyddwyr i weld a ydynt yn gwybod, ymhlith pethau eraill, faint o halen sy'n cael ei argymell y dylech ei gael bob dydd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/cwishalen.pdf

### Halen - Rysáit Saws Pasta
**FSA/1447/0909**




Rysáit blasus ar gyfer creu saws pasta tomato, gan ddefnyddio cynhwysion eraill yn lle halen.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/rysait.pdf

## Adnoddau'r Ymgyrchoedd Bwyta'n Iach



### Poster A3 yr Ymgyrch Braster Dirlawn
**FSA/1497/0110**

Fel rhan o ymgyrch yr Asiantaeth yn 2010 i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am fraster dirlawn, mae'r poster dwyieithog hwn yn annog defnyddwyr i leihau'r braster dirlawn yn eu deiet drwy ddefnyddio llaeth 1%.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/llaetha3.pdf

Hefyd ar gael fel poster A4: (cod FSA/1495/0110) drwy ddilyn:
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/llaetha4.pdf




### Braster Dirlawn - Ryseitiau
**FSA/1307/0109 ac FSA/1487/0110**

Ryseitiau blasus ar gyfer paratoi spaghetti bolognese a phastai pysgod, gan ddefnyddio cynhwysion sy'n isel mewn braster i helpu defnyddwyr i leihau'r braster dirlawn yn eu deiet.

**Gallwch lawrlwytho copïau drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/rysait0209.pdf
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/pastai.pdf




### Braster Dirlawn - Taflen Gwis
**FSA/1308/0109**

Mae'r daflen hon yn herio defnyddwyr i brofi faint y maent yn ei wybod am fraster dirlawn.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/cwis0209.pdf

## Labeli Bwyd




### Labeli Bwyd - Dewisiadau mwy Deallus
**FSA/1129/0808**

Mae'r llyfryn A5 hwn wedi'i ddatblygu er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau iachach, mwy diogel, a mwy gwybodus wrth ddewis rhwng gwahanol gynhyrchion.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/foodlabelswelsh0808.pdf

# Adnoddau i Ddefnyddwyr

## Labeli Bwyd

### Defnyddio Goleuadau Traffig i Wneud Dewisiadau Iachach
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**




Mae'r llyfryn bach hwn yn helpu'r defnyddiwr cyffredin i wneud dewisiadau iachach wrth brynu bwyd, a hynny drwy ddisgrifio'r system goleuadau traffig gwirfoddol sy'n cael ei defnyddio gan nifer o archfarchnadoedd a chynhyrchwyr.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/trafficlightWelsh0108.pdf

## Diogelwch Bwyd

### Mae Bygiau'n Hoffi'r Haul!
**FSA/1177/0607**




Mae'r daflen A5 hon yn rhoi cyngor ar sut i gadw bwyd yn oer yn yr haf er mwyn osgoi gwenwyn bwyd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/bugslikeithotwelsh0507

### Mae Germau yn Hoff o Deithio
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**




Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor ar sut i baratoi, coginio a storio cig amrwd er mwyn osgoi gwenwyn bwyd.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/germstravelwelsh1007.pdf

### Taflen Gwylio Germau - Hylendid Da yn y Cartref
**FSA/1244/0508**




Mae'r daflen hon, sy'n dwyn y teitl 'Braw y Bwrdd Torri', yn rhestru ffyrdd y gall defnyddwyr ddiogelu eu hunain yn erbyn germau yn y gegin, drwy ddilyn yr hanfodion diogelwch bwyd wrth baratoi bwyd – sef glanhau, coginio, oeri ac atal croeshalogi.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/taflengg.pdf

## Diogelwch Bwyd

### Poster Gwylio Germau
**FSA/1240/0508 - FSA/1239/0508**




Mae'r poster hwn, sy'n dwyn y teitl 'Dial y Dwylo Budr', yn canolbwyntio ar hylendid bwyd da yn y cartref.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/postergg2.pdf

Mae teitlau eraill yn cynnwys 'Curse of the uncooked', 'It came from the chopping board' a 'Terror stalks the fridge'. Mae'r rhain ar gael yn Saesneg yn unig.

**Gallwch lawrlwytho copïau o'r rhain drwy:**
www.food.gov.uk/safereating/hyg/germwatch/resources/

### Taflen Listeria
**FSA/1344/0609**




Mae'r daflen ddwyieithog hon (ar gyfer pobl dros 60 oed) yn nodi'r camau pwysig y dylid eu cymryd i leihau'r perygl o gael listeria, camau megis cadw bwyd yn ddigon oer yn yr oergell a dilyn cyfarwyddiadau 'defnyddio erbyn' (use by) ar y label.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/taflenlisteria0609.pdf

### Poster Listeria
**FSA/1346/0609**




Mae'r poster dwyieithog hwn yn rhybuddio pobl hŷn am beryglon gwenwyn bwyd listeria a hefyd yn nodi'r camau syml y gallant eu cymryd i'w osgoi.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/posterlisteria0609.pdf

### Deunyddiau Wythnos Diogelwch Bwyd 2010
**Ar gael yn fuan!**

AR GAEL YN FUAN

Bydd deunydd cyhoeddusrwydd ar gael yn fuan ar gyfer Wythnos Diogelwch Bwyd 2010, a fydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch a hylendid bwyd yn y cartref ac yn hyrwyddo'r hanfodion diogelwch bwyd (coginio, glanhau, oeri ac atal croeshalogi).

## Bwyta'n Iach

### What's Cooking? A Guide to Setting Up and Running Community and School Food Clubs *(Saesneg yn unig)*

**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**




Mae'r canllaw hwn, a gynhyrchwyd ar y cyd â ContinYou, yn rhoi cyngor ar sefydlu clwb bwyd tebyg i glwb 'What's Cooking?' mewn ysgol neu yn y gymuned. Mae wedi'i dargedu at unrhyw un sydd am helpu pobl ifanc i ddysgu mwy am fwyd a sut i baratoi prydau iachus a blasus.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/publication/whatscooking1007.pdf

### Pecyn ASB Cymru i Athrawon (Cyfnod Allweddol 1 a 2)

**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**




Mae'r pecyn unigryw hwn i athrawon yn gyfoeth o adnoddau y gall athrawon eu defnyddio i addysgu disgyblion am y sgiliau bywyd a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau bwyd iachach a mwy diogel. Mae'n cynnwys gweithgareddau bwrdd gwyn, DVD o bantomeim yr ASB, a mynediad at gasgliad o gemau rhyngweithiol sydd gan yr ASB ar-lein i'w defnyddio yn y dosbarth. Mae'r cyfan wedi'i gefnogi â chynlluniau gwersi, taflenni gwaith a gweithgareddau trawsgwricwlaidd.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/pecyniathrawonasbcymru.pdf

### Pecyn Cymorth 'Dechrau Coginio'

**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**




Mae'r adnodd ar-lein hwn yn cynnwys 'pecyn cymorth' i addysgu cwrs sgiliau coginio sylfaenol chwe wythnos i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed. Mae'n cynnwys canllaw cynhwysfawr a lliwgar i hyfforddwyr a 30 o ryseitiau hawdd eu dilyn.

www.food.gov.uk/wales/aboutus_wales/fsawalesw/maeth/cymru/dechraucoginio



*Mae'r holl adnoddau ar gael oddi wrth Gyhoeddiadau'r ASB oni nodir yn wahanol*

# Adnoddau Addysgol

## Bwyta'n Iach

### Posteri Comig Bwyta'n Iach (Cyfnod Allweddol 3)

**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**



Mae'r posteri 'stribedi comig' bwyta'n iach wedi'u dylunio i fynd i'r afael â materion bwyta'n iach sy'n berthnasol i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed. Mae'r tri phoster yn cynnwys sgyrsiau rhwng cymeriadau ffuglennol yn eu harddegau ac yn trafod tair neges bwyta'n iach hanfodol ar bwysigrwydd bwyta brecwast; labeli goleuadau traffig ar flaen pecynnau a'r Plât bwyta'n iach.

www.food.gov.uk/wales/aboutus_wales/fsawalesw/Schoolswelsh/adnoddau/postericomig

**Mae rhagor o adnoddau i ysgolion ar faeth ar gael i'w lawrlwytho drwy:**

www.food.gov.uk/healthiereating/nutritionschools/teachingtools/

## Diogelwch Bwyd

### Pecyn GwylioGermau i Ysgolion

**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**



Mae'r pecyn hwn yn llawn adnoddau addysgu a dysgu ar gyfer ysgolion cynradd a ddatblygwyd i helpu plant rhwng 5 ac 11 oed i ddysgu mwy am arferion hylendid da wrth baratoi a choginio bwyd.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/gwyliogermau1108.pdf

**Mae'r gweithgareddau isod hefyd ar gael i'w lawrlwytho. Gellir eu defnyddio i addysgu plant am hylendid bwyd da a helpu athrawon i ymgorffori negeseuon diogelwch bwyd yn rhan o gwricwlwm yr ysgol:**

### Germ-air Gwylio Germau



Ewch ati i chwilio am y geiriau hylendid bwyd sydd wedi'u cuddio gan Sglyfyn (ein cymeriad unigryw) yn y chwilair hwn:
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/germair.pdf

### Germ-wledd Gwylio Germau



Cyfle i helpu Sglyfyn i gyrraedd y germ drwy ddilyn y sleim gwyrdd:
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/germwledd.pdf

### Lliwio Llun Gwylio Germau

Llun A4 o Sglyfyn y gall disgyblion ei liwio i mewn:
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/lliwio.pdf

## Bwyta'n Iach

### Braster dirlawn a siwgr wedi'i ychwanegu
**Ar gael gan yr ASB yng Nghymru**




Mae'r llyfryn hwn wedi'i ddatblygu ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd, ac mae'n rhestru'r rhesymau dros leihau braster dirlawn a siwgr wedi'i ychwanegu mewn bwyd a'r rhesymau dros wneud dognau bwyd yn llai, yn ogystal â'r camau y dylai busnesau eu cymryd os ydynt am ail-fformiwleiddio eu cynhyrchion.

### Taflen Labelu Goleuadau Traffig
**Ar gael gan yr ASB yng Nghymru**




Datblygwyd y daflen hon ar gyfer cwmnïau bwyd, er mwyn egluro pwysigrwydd labeli maeth ar flaen pecynnau, yn ogystal â disgrifio system yr Asiantaeth, a sut i'w mabwysiadu.

### Pecyn 'Healthy Catering' *(Saesneg yn unig)*
**Ar gael ar-lein yn unig**



Mae'r adnodd hwn, sydd ar gael ar y we, wedi'i ddatblygu ar gyfer unigolion sy'n rhedeg busnesau neu wasanaethau arlwyo bach a hefyd y rhai hynny sy'n cynnal cyrsiau addysgu arlwyo neu'n astudio am gymhwyster arlwyo. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys ryseitiau a chyngor ymarferol ar sut i wneud prydau yn iachach.

www.food.gov.uk/healthiereating/healthycatering

### Taflen 'Dine Out, Eat Well' *(Saesneg yn unig)*
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**




Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor i fusnesau bwyd ar sut i gynnig opsiynau iach i gwsmeriaid.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/dineouteat.pdf

## Gwybodaeth am Alergedd

### E-Ddysgu - Safle Hyfforddi Alergedd Bwyd
**Adnodd ar-lein yn unig**



Mae'r adnodd rhyngweithiol hwn, sy'n cynnig hyfforddiant ar alergeddau bwyd, yn tynnu sylw at y camau y dylid eu cymryd i sicrhau bod arferion da yn cael eu dilyn wrth gynhyrchu bwyd. Mae'n safle hynod ddefnyddiol i unrhyw un sydd ag alergedd bwyd hefyd.

allergytraining.food.gov.uk/cymraeg

# Gwybodaeth am Alergedd

### Guidance on Allergen Management and Consumer Information *(Saesneg yn unig)*
### Ar gael i'w lawrlwytho yn unig

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth am reoli alergenau bwyd wrth gynhyrchu bwyd, sut i asesu'r risg o groeshalogi ac ymadroddion addas i'w defnyddio i rybuddio defnyddwyr am unrhyw risgiau yn gysylltiedig ag alergenau mewn bwydydd penodol.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/maycontainguide.pdf




### Alergedd - Beth i'w Ystyried wrth Labelu Bwyd
### FSA/1105/0209

Mae'r daflen hon wedi'i thargedu at fusnesau sy'n cynhyrchu bwydydd sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw. Mae'n rhoi cyngor syml ar sut i asesu a lleihau'r risg o groeshalogi alergenau, a hefyd yn rhoi cyngor ar pa bryd a sut i ddefnyddio labeli i gynghori am alergenau.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/allergyjamjarwelsh0209.pdf



### Alergedd bwyd - Beth Sydd Angen i chi ei Wybod
### FSA/1225/0108

Mae'r daflen hon yn berthnasol i wasanaethau bwyd neu fusnesau sy'n gwerthu bwyd e.e. brechdanau, rholiau bara, cacennau, cynhyrchion deli neu fwydydd eraill sydd heb eu pecynnu. Mae'n cynnig cyngor ar sut i ymateb i gwsmeriaid sydd ag alergeddau, yn nodi'r prif gynhwysion y mae gan bobl alergedd iddynt a pha fwydydd a fyddai'n cynnwys y cynhwysion hyn, ac yn pwysleisio pa mor bwysig yw delio ag alergeddau yn y ffordd gywir.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/foodallergywelsh0108.pdf




### Poster 'Meddyliwch am Alergedd'
### FSA/1224/0108

Mae'r poster hwn wedi'i ddatblygu ar gyfer gwasanaethau bwyd neu i fusnesau sy'n gwerthu bwyd sy'n cael ei becynnu ar y safle. Mae'n nodi'r prif gynhwysion y mae gan bobl alergedd iddynt, yn ogystal â rhoi enghreifftiau o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/thinkallergywelsh0108.pdf



## Gwybodaeth am Alergedd



### Canllawiau 'The Provision of Allergen Information for Non Prepacked Foods - Voluntary Best Practice Guidance' *(Saesneg yn unig)*

**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r arferion gorau y gall busnesau sy'n gwerthu neu'n darparu bwyd sydd heb ei becynnu ymlaen llaw eu dilyn er mwyn dysgu sut i helpu cwsmeriaid sy'n dioddef o alergedd neu anoddefiad bwyd.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/loosefoodsguidance.pdf

## Diogelwch Bwyd



### Rheolau Labelu Pysgod: Canllaw Cyflym

**FSA/1211/1007**

Canllaw cyflym ar sut i gydymffurfio â deddfwriaeth labelu wrth labelu pysgod i'w manwerthu.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/fishlabellingWelsh1007.pdf




### Hylendid Bwyd - Canllaw i Fusnesau

**FSA/1039/0709**

Llyfryn ar gyfer bwytai, caffis a busnesau arlwyo eraill, yn ogystal â siopau sy'n gwerthu bwyd. Mae'n amlinellu'r brif ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar eich busnes, eich cyfrifoldebau a sut y caiff y rheolau eu gorfodi. Mae'r llyfryn hwn hefyd yn disgrifio arferion hylendid da a sut i ddiogelu eich busnes a chydymffurfio â'r gyfraith.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/hylendidbwyd.pdf




### Arolygiadau Cyfraith Bwyd a'ch Busnes

**FSA/1075/0809**

Mae'r llyfryn A5 hwn, ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn busnesau bwyd, yn rhoi canllaw cyffredinol i'r broses o arolygu busnesau sy'n cynhyrchu neu'n paratoi bwyd ar gyfer y cyhoedd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/arolygiadaubwyd0809.pdf

# Diogelwch Bwyd




### Dechrau Busnes - Eich Camau Cyntaf i Redeg Busnes Arlwyo
**FSA/1069/0606**

Mae'r adnodd hwn yn darparu cyngor ar ystod o bynciau gan gynnwys cofrestru safleoedd, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, TAW a chadw cofnodion.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/dechrau1008.pdf




### Eggs: What Caterers Need to Know *(Saesneg yn unig)*
**FSA/0722/1202**

Canllaw byr ar gyfer arlwywyr, sy'n rhestru gwybodaeth bwysig am wyau gan gynnwys y peryglon, pa fwydydd ddylai gynnwys wy wedi'i basteureiddio, pwy sydd fwyaf agored i niwed, storio wyau, lleihau'r peryglon os ydych yn defnyddio llawer o wyau ac awgrymiadau defnyddiol.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/eggleafletwelsh.pdf



### Cod Ymarfer Amaethyddol Da er Lleihau Mycotocsinau yng Ngrawn y DU
**FSA/1181/0607**

Mae'r daflen hon yn rhoi crynodeb o'r newidiadau y gallwch eu gwneud wrth gadw grawn ac o safbwynt eich arferion agronomig er mwyn lleihau'r risg o fynd dros y terfynau a nodir mewn deddfwriaeth Ewropeaidd gyfredol o ran mycotocsinau mewn grawn. Crynodeb o ddau God Ymarfer llawn a gynhyrchwyd gan yr ASB yw'r wybodaeth a geir yn y daflen hon.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/mycotoxinswelsh0607.pdf




### Posteri 'Mae Hylendid Gwael yn Gadael Blas Cas'
**FSA/1448/0909**

Mae'r posteri dwyieithog hyn yn targedu busnesau arlwyo sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr – megis bwytai, siopau tecawê a chaffis. Maent yn hyrwyddo'r adnoddau sydd ar gael gan yr Asiantaeth i helpu busnesau bwyd i gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd, e.e. Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell.

**Gallwch lawrlwytho copïau drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/sglod.pdf
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/brechdanau.pdf

## Diogelwch Bwyd

### Taflen 'Bydd Hylendid Da yn Hwb i'th Fusnes'
**FSA/1492/0110**

Mae'r daflen A5 ddwyieithog hon yn hyrwyddo cynllun sgorio hylendid bwyd i fusnesau arlwyo sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr – megis bwytai, siopau tecawê a chaffis. Mae'n esbonio mwy am y modd y bydd y cynllun yn cael ei weithredu a'r effaith a gaiff ar fusnesau bwyd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/hylendidda.pdf



### Pecyn Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB) i Arlwywyr
**FSA/1533/0110**

Pecyn ymarferol a hawdd ei ddefnyddio a ddatblygwyd i helpu busnesau arlwyo bach megis bwytai, caffis a siopau tecawê i gydymffurfio â rheoliadau sydd wedi bod mewn grym ers 1 Ionawr 2006.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/arlwywyr0110.pdf




### Pecyn 'SFBB for Chinese Cuisine' *(Tsieinëeg a Saesneg yn unig)*
**FSA/1154/0407**

Fersiwn o SFBB ar gyfer busnesau arlwyo bach sy'n gweini bwyd Tsieineaidd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/hygleg/hyglegresources/sfbb/sfbbcuisines/#h_2




### Pecyn 'SFBB for Indian, Pakistani, Bangladeshi and Sri Lankan Cuisines' *(Saesneg yn unig)*
**FSA/1114/0107**

Fersiwn o SFBB ar gyfer busnesau arlwyo bach sy'n gweini bwyd o India, Pacistan, Bangladesh neu Sri Lanka.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/hygleg/hyglegresources/sfbb/sfbbcuisines/



## Diogelwch Bwyd

### Pecyn Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB) i Fanwerthwyr
**FSA/1534/0110**

Pecyn a ddatblygwyd i helpu busnesau manwerthu bach sy'n gwerthu bwyd, gan gynnwys unrhyw fwyd y mae angen iddo gael ei gadw'n oer er mwyn ei gadw'n ddiogel, megis llaeth.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/manwerthwyr0310.pdf




### Atodiad Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB) i Gartrefi Gofal
**FSA/1540/0210**

Cynhyrchwyd yr Atodiad hwn ar gyfer arlwywyr a staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl er mwyn eu helpu i baratoi a choginio bwyd mwy diogel. Dylid ei ddefnyddio ar y cyd â phecyn SFBB ar gyfer arlwywyr ac nid yw'n addas i'w ddefnyddio mewn cartrefi nyrsio.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/cartrefigofal1209.pdf




### Pecyn Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB) i Warchodwyr Plant
**FSA /1483/1209**

Datblygwyd y pecyn hwn ar gyfer gwarchodwyr a gofalwyr plant cofrestredig ar safleoedd domestig sy'n darparu prydau a diod i'r plant yn eu gofal. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am hylendid bwyd da, adran ar gynnyrch llaeth ac adolygiad 3 mis a thaflen weithredu er mwyn gallu cadw cofnodion yn hawdd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/gwarchplant1209.pdf




### Taflen Wybodaeth 'Food and Pesticides' *(Saesneg yn unig)*
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Mae'r daflen hon yn esbonio beth yw plaladdwyr, pam eu bod yn cael eu defnyddio a sut y maent yn cael eu rheoleiddio.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/foodpestfactsh.pdf



# Busnesau Bwyd

## Diogelwch Bwyd

### Bwydydd wedi'u Hoeri a Becynnwyd dan Wactod
**FSA/1275/0708**

Taflen ffeithiau sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer pobl sy'n ail-becynnu neu'n gwerthu bwydydd wedi'u hoeri a becynnwyd dan wactod neu mewn atmosffer addasedig, ac sydd am gael oes silff o fwy na 10 diwrnod.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/vacpackwelsh0708.pdf



### Listeria - Cadw Bwyd yn Ddiogel
**FSA/1278/0708**

Mae'r daflen ffeithiau hon yn nodi manylion prif fesurau rheoli y gellir eu cymryd er mwyn lleihau'r risg o ddatblygu salwch yn sgil listeria (listeriosis). Mae'r canllaw yn berthnasol iawn i'r rheiny sy'n cyflenwi bwydydd oer sy'n barod i'w bwyta ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/listeriawelsh0708.pdf



## Bwyd wedi'i Fewnforio

### Working Together on Imported Food *(Saesneg yn unig)*
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**

Datblygwyd y llyfryn hwn ar faterion sy'n ymwneud â bwyd sydd wedi'i fewnforio ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol. Cafodd ei ddatblygu i godi ymwybyddiaeth o'r adnoddau am fwyd sydd wedi'u mewnforio sydd ar gael ac enghreifftiau o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan awdurdodau.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/publication/importedfood1007.pdf



### Taflen 'Think Before You Import Food' *(Saesneg yn unig)*
**FSA/1042/0306**

Mae'r daflen hon yn cynnig trosolwg o reolau pwysig y mae'n rhaid i fewnforwyr bwyd eu dilyn er mwyn sicrhau bod bwyd sy'n cael ei fewnforio yn ddiogel i'w fwyta ac nad ydynt yn torri'r gyfraith.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/thinkimportedfoodposter1007.pdf



# Cynhyrchwyr Sylfaenol

## Taflen Atal Gwenwyn Plwm ar y Fferm
**FSA/1316/0309**




Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor i ffermwyr i'w helpu i warchod eu da byw, eu busnes a bwyd y DU rhag gwenwyn plwm.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/gwenwynplwm0309.pdf

## Cymru: Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) ar gyfer Gwartheg, Defaid a Geifr
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**



O 1 Ionawr 2010, daeth yn ofyniad cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth am y gadwyn fwyd (FCI) ar gyfer gwartheg, defaid a geifr a anfonir i'r lladd-dy er mwyn eu bwyta gan bobl. Mae'r daflen hon yn amlinellu beth mae FCI yn ei olygu i gynhyrchwyr da byw a gweithredwyr lladd-dai.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/fcicymru

## Canllawiau Pellach ar Wybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) i Geidwaid Gwartheg, Defaid a Geifr yng Nghymru *(Dwyieithog)*
**Ar gael i'w lawrlwytho yn unig**



Dylid darllen y canllawiau pellach hyn ar y cyd â'r daflen uchod. Maent yn darparu rhagor o wybodaeth am bob un o'r is-benawdau a gynhwysir yn y datganiad hwnnw y mae'n rhaid i chi ei ddarparu ar gyfer yr holl wartheg, defaid a geifr yr ydych yn eu hanfon i'r lladd-dy.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/fcidu

## Nodiadau Fferm
**Ar gael gan yr ASB yng Nghymru**




Mae'r llyfr nodiadau hwn wedi'i ddylunio fel y gall ffermwyr ei gario yn eu poced ar y fferm a chofnodi digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd. Mae'r llyfryn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y math o gofnodion sydd eu hangen, enghreifftiau o gofnodion, cyngor ar gadw cofnodion yn haws a chalendrau ar gyfer blaen gynllunio.

## Gwartheg Cig Eidion Glân i'w Lladd - Canllaw i Gynhyrchwyr
**FSA/0951/1007**



Mae'r llyfryn A5 hwn yn cynghori ffermwyr ar gyflenwi gwartheg glân i'w lladd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/cleanbeefwelsh1007.pdf

## Diogelwch Cig Coch a Da Byw Glân
### Ar gael i'w lawrlwytho yn unig

Canllaw A5 ar sut y gall glanweithdra'r anifail byw effeithio ar y broses o gynhyrchu cig ffres yn ddiogel ac yn hylan.

www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/12210fsaredmeatsafetyw2.pdf




## Food and Feed Hygiene for Farmers and Growers Guide *(Saesneg yn unig)*
### Ar gael i'w lawrlwytho yn unig

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer ffermwyr a thyfwyr yn crynhoi prif ddarpariaethau'r rheoliadau Hylendid Bwyd a Phorthiant a ddaeth i rym fis Ionawr 2006.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/farmgrowhyg.pdf




## Taflen Ffermydd Glanach, Adar Gwell
### FSA/0879/0104

Mae'r daflen A5 hon yn cynnig cyngor ar gadw ffermydd yn lân ac yn fioddiogel.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/cleanfarmbetterflockwelsh.pdf




## Bioddiogelwch ar gyfer Brwyliaid a Gedwir Dan Do
### FSA/1084/0606

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio beth yw manteision cynnal bioddiogelwch da ar ffermydd ieir, fel modd o atal clefydau mewn dofednod a chytrefu ieir brwyliaid sydd â champylobacter.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/housedbroilersA5welsh0606.pdf




## Poster Ffermydd Glanach, Adar Gwell
### FSA/0880/0104

Mae'r poster A3 hwn yn rhoi cyngor ar gadw ffermydd yn lân ac yn fioddiogel.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/cleanerfarmsflockposter1107.pdf






*Mae'r holl adnoddau ar gael oddi wrth Gyhoeddiadau'r ASB oni nodir yn wahanol*

## Posteri: Clean Cattle and Meat Safety *(Saesneg yn unig)*
**FSA/0747/0203**




Mae'r posteri A3 hyn yn rhan o'r gyfres 'Clean Cattle and Meat Safety – Getting Our Act Together'. Mae teitlau'r posteri fel a ganlyn: 'Livestock may carry harmful bacteria', 'The clean livestock policy has improved cattle cleanliness', 'Dirty cattle cost money', 'Pre-slaughter diet needs consideration', 'Providing adequate bedding improves cattle cleanliness', 'Clipping can remove visible dirt', 'Wet cattle are a significant hazard', 'Transport factors can affect cattle cleanliness', 'Mixing unfamiliar animals increases cross-contamination' a 'Bacteria survive well in livestock environments'.

**Gallwch lawrlwytho'r posteri hyn drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/cleancattleposters.pdf

## Posteri Defaid Glân a Diogelwch Cig
**FSA/0923/0704 - FSA/0928/0704**




Mae'r posteri A3 hyn yn rhan o'r gyfres 'Defaid Glân a Diogelwch Cig - Rhoi Trefn ar Bethau'. Mae teitlau'r posteri fel a ganlyn: 'Gall bacteria niweidiol ledaenu mewn gwellt budr', 'Gall cnuoedd gwlyb ledaenu mwy o facteria', 'Gall bacteria niweidiol ledaenu rhwng corlannau', 'Gall bacteria ar y cnu drosglwyddo i'r carcas', 'Caiff bacteria niweidiol mewn bwyd a dwr eu gwaredu mewn ysgarthion' a 'Gall bacteria niweidiol ledaenu mewn amgylchedd sy'n fudr'.

**Gallwch lawrlwytho'r posteri hyn drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/cleansheepposters1107.pdf

## Defaid Glân i'w Lladd - Canllaw i Gynhyrchwyr
**FSA/1141/0307**




Mae'r daflen A5 hon yn cynnig cyngor i ffermwyr ar gyflenwi defaid glân i'w lladd.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/cleansheepwelsh0607.pdf

## O Ddifrif am Salmonela - Canllaw i Gynhyrchwyr Moch
**FSA/1223/0108**




Datblygwyd y llyfryn hwn ar gyfer y rheiny sy'n ymwneud â'r gadwyn cynhyrchu moch, megis ffermwyr, cludwyr, milfeddygon a gweithredwyr lladd-dai. Y nod yw rhoi cyngor ar wella arferion ar y fferm i reoli Salmonela. Yn ogystal â'r llyfryn, ceir DVD, a gellir defnyddio'r ddau adnodd at ddibenion addysgu a hyfforddi.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/cleanpigsWelsh0108.pdf

# Cynhyrchwyr Sylfaenol



**BSE a Chig Eidion - Arweiniad Byr i Fesurau Rheoli Newydd**
**FSA/1016/1105**

Mae'r daflen hon yn egluro'n fyr y mesurau sydd ar waith i reoli BSE.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/bseflyerwelsh2005.pdf



**Egluro Mesurau Rheoli BSE a Chig Eidion Newydd**
**FSA/1015/1105**

Mae'r daflen hon yn egluro'n fanwl y mesurau sydd ar waith i reoli BSE a'r rhesymau dros gyflwyno'r drefn brofi.

**Gallwch lawrlwytho copi drwy:**
www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/bseleafletwelsh2005.pdf

# Manylion Cyswllt

**Mae'r holl gyhoeddiadau ar gael oddi wrth Gyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) oni nodir yn wahanol:**

**Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**

Ffôn: 0845 606 0667
E-bost: foodstandards@ecgroup.co.uk

**I gael gwybodaeth gyffredinol neu i wneud cais am adnoddau sydd ar gael oddi wrth yr Asiantaeth yng Nghymru yn unig:**

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru**
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 029 2067 8999
E-bost: wales@foodstandards.gsi.gov.uk


**75%** wedi'i ailgylchu
Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn ar bapur ailgylchu 75%

ailgylchwch
Ar ôl gorffen gyda'r llyfryn hwn a fyddech cystal â'i ailgylchu